# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 30ain Ionawr, 2024 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
| --- | --- |
| Cynghorydd Sir Alistair Neill, (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sir Laura Wright, (Is- Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Sir: Jill Bond, Paul Pavia, Peter Strong, Meirion Howells, Rachel Buckler, Catherine Fookes<br><br>Hefyd yn bresennol : Y Cynghorydd Sir Mary Ann Brocklesby, Arweinydd, Cyngor Sir Fynwy, Cynghorydd Sir Fay Bromfield yn lle Ann Webb, Ben Callard, Aelod Cabinet dros Adnoddau, Ian Chandler, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau, Cynghorwyr SirSimon Howarth and Sue Riley | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy<br>Hannah Carter, Dadansoddwr Perfformiad<br>James Williams, Chief Officer Law & Governance<br>Stacey Jones, Uwch Gyfrifydd<br>Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid |

**YMDDIHEURIADAU:**

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cadeirydd fuddiant heb fod yn rhagfarnu fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Dim.

3. **Craffu ar Gynigion y Gyllideb**

Cafwyd cyflwyniad gan Ben Callard, Aelod Cabinet, a chyflwynodd yr adroddiad ac ateb cwestiynau gan aelodau gyda Peter Davies, Aelod Cabinet, Ian Chandler, Jane Rodgers, Tyrone Stokes, Frances O'Brien, Will Mclean, Ian Saunders, Jonathan Davies a Matthew Gatehouse.

- Beth yw cysyniadau defnyddio £2.8m o dderbyniadadau cyfalaf i dalu am gostau refeniw?
- Sut y cafodd setliad is na'r cyfartalog gan Lywodraeth Cymru a natur ansicr grantiau ei ystyried yn y cynigion?
- Mae gostyngiad cymorth ardrethi busnes yn bwysig iawn i ganol trefi: a fydd gennym lai o ymwelwyr a llai o incwm os oes llai o fusnesau? Sut caiff hynny ei drin yn y gyllideb?

- A yw defnyddio £2.8m o dderbyniadau cyfalaf yn golygu y bydd diffyg yn y gyllideb cyfalaf, ac mae gennyn lai o wariant y byddai'r cyfalaf hwnnw fel arall yn cael ei ddefnyddio neu a fydd yn cynyddu ein benthyca?
- Yng nghyswllt y diffyg o setliad cyfartalog Cymru, a yw gwahaniaeth o 0.8% yn gyfwerth â tua £600k?
- Er mwyn eglurdeb, a oes unrhyw beth yn dod allan o ddyfarniad i Loegr a fyddai'n llifo'n naturiol i raniad ar draws pob awdurdod lleol ac na fyddai angen lobio?
- A yw'r cynllun i ostwng costau benthyca gan £1.8m yn gydnaws gyda thynnu derbyniadau cyfalaf?
- Mae'r arbedion a ofynnir gan y Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol yn fater o gonsyrn – sut y disgwylir iddynt wneud mwy gyda llai?
- A fydd costau'n gysylltiedig gyda gwneud newidiadau pontio?
- Mae pryderon am y dybiaeth y caiff y cap ar ofal dibreswyl yn y gymuned ei godi. Beth yw'r effaith bosibl pe na gwireddir arbedion o £570k?
- Beth fydd effaith grant y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol ac ailaiinio swyddi gwag ar y gweithlu rheng flaen?
- Gofal Cymdeithasol: sut mae cyfarfod gofynion statudol yn cydfynd gyda 853 awr o angen nas caiff ei ddiwallu? Pa effaith gaiff yr arbedion hyn ar yr oriau hyn o angen heb ei ddiwallu?
- Er mwyn eglurder llwyr, nid oes unrhyw angen a aseswyd heb fod yn cael ei gyflawni ar gyfer unrhyw unigolyn, weithiau mae'n oedi 853 awr, ac felly a ydym yn cyflawni ein goblygiadau statudol?
- Pa sicrwydd fedrir ei roi am arbedion pan fod y dangosiad diweddaraf yn dangos cynnydd yn y rhagolwg o orwariant o'r mis blaenorol?
- Dan 5.8, mae casgliadau gwastraff yn parhau'r un fath ond o gofio y caiff bagiau du eu casglu bob bythefnos, a edrychwyd ar yr achos am gasgliadau bob bythefnos ar gyfer y bagiau eraill?
- Yn sleid 3 yn y cyflwyniad, a yw'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau ar gyfer y pwysau cost yn gamgymeriad talgrynnu?
- Ynghylch y gostyngiad yng nghyllid Cerddoriaeth Gwent, a gafodd y goblygiadau eu hystyried oherwydd y gydberthynas gref rhwng dysgu cerddoriaeth a dysgu mewn pynciau eraill?
- A fedrid helpu Cerddoriaeth Gwent mewn ffyrdd eraill, tebyg i ostwng hurio ystafelloedd mewn ysgolion?
- Cau amgueddfeydd a gorsaf Tyndyrn am un diwrnod – a fydd hynny'n arwain at ddryswch i ymwelwyr? A gaiff hyn ei fonitro mewn rhyw ffordd?
- Agor ar wyliau banc – beth am wyliau ysgol e.e. gwyliau'r Pasg a gwyliau'r haf?
- A yw gostwng yr oriau yn Nhyndyrn a'r canolfannau hamdden yn mynd â ni i sefyllfa fydd yn gostwng nifer ymwelwyr yn dilyn y dryswch, yna'r flwyddyn nesaf byddwn yn gweld llai o refeniw yn arwain at ostwng yr oriau ymhellach? Lle fyddwn ni'n mynd yn edrych ymhellach na flwyddyn?
- Yng nghyswllt Cerddoriaeth Gwent, a oes gennym wybodaeth gan gynghorau eraill am effaith y galw am gerddoriaeth? Faint fydd y cynnydd yng nghostau gwersi?
- Faint o ddisgyblion ydyn ni'n amcangyfrif fydd yn medru cael budd o'r gronfa caledi, a sut fyddan nhw'n gwneud gais?
- A oes ffigurau ar faint o ddefnyddwyr sy'n mynd i ganolfannau hamdden yn yr awr/hanner awr ddiwethaf?
- Beth sy'n cael ei wneud i gadw golwg agos ar gost ymgynghorwyr a ffioedd proffesiynol? Pa mor agos maen nhw'n cael eu monitro? A oes potensial ar gyfer arbedion?
- A oes posibilrwydd o ddefnyddio dulliau eraill e.e. mae Monlife yn defnyddio adnoddau mewnol i reoli prosiect rhai o'u cynlluniau, gan arbed arian a datblygu pobl?

- A ydym yn rhoi ystyriaeth lawn i'r adnoddau sydd gennym ar ôl? Mae pryderon am y straen a'r pwysau ar y staff sydd ar ôl yn cymryd mwy o gyfrifoldeb a rolau ehangach.
- Torri'r gyllideb mewn gwir dermau y llynedd, eleni a'r flwyddyn nesaf – lle mae hynny'n mynd â ni ar ôl tair blynedd? A oes angen ailfeddwl yn fwy sylweddol am sut y byddwn yn darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol? A oes angen Cynllun Trawsnewid am y tair blynedd nesaf?
- Byddai'n dda gweld pryd a sut y byddwn yn dysgu am effeithiau'r toriadau hyn e.e. beth fydd gostwng cymorth gofal cymdeithasol yn ei olygu ar gyfer teuluoedd sydd â rhywun sydd angen gofal cymdeithasol? Beth fydd yr effaith tu hwnt i ddim ond y rhifau?
- Y llynedd tynnwyd £3.5m o gronfeydd wrth gefn, gyda £2.6m arall eleni a nawr nid oes cwmpas pellach i gymryd o gronfeydd wrth gefn. Os caiff yr holl arian hwnnw ei ddefnyddio, o ba gronfa fyddai arian yn dod i wneud y newidiadau sylweddol sydd eu hangen? A fyddai Bwrdd Rhaglen Newid i yrru hyn i gyd?

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Rydym i gyd yn deall fod hwn yn gyfnod anodd iawn a bod llawer iawn o waith yn mynd i hyn. Mae'r pwyllgor yn diolch i bawb yma a hefyd tu ôl i'r llenni am wneud eu gorau glas yn y sefyllfa yma. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd i geisio gweld os oes ffordd well neu wahanol o wneud pethau ac i ddeall beth yw'r canlyniadau.

Cymeradwywyd yr argymhellion a derbyniwyd yr adroddiad.

**4. <u>Diweddariad Chwarter 2 ar y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol</u>**

Cyflwynodd Mary Ann Brocklesby, yr Arweinydd, yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda Will Mclean a Matthew Gatehouse.

**Cwestiynau Allweddol gan Aelodau:**

- A oes mwy o ddisgyblion o deuluoedd amddifadus yn cael eu hannog i dderbyn prydau ysgol am ddim? A yw'r cyngor yn rhoi cymhorthdal i deuluoedd gydag incwm gwell?
- Sut mae rhoi blaenoriaeth i anghenion y plant hynny nad ydynt yn yr ysgol? Pa gefnogaeth gaiff ei rhoi i blant sydd wedi gadael addysg ffurfiol oherwydd pryder ac afiechyd meddwl? A oes gennym gyfres gynhwysfawr o setiau data ar gyfer y disgyblion hynny cyn iddynt adael y lleoliad addysg ffurfiol?
- Er eglurder, mae'r adroddiad yn dynodi sefyllfa ddiweddaraf disgyblion uwchradd yw 1 mewn 10 o ddisgyblion heb fod yn mynychu? Ar gyfer disgyblion prydau ysgol am ddim, mae'n 1 mewn 5?
- Hoffai'r pwyllgor atgoffa disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid mai'r ysgol yw'r lle gorau i blant.
- Heblaw cynlluniau bwyd ac oergelloedd cymunedol, beth arall sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ein cymunedau? A ydych yn disgwyl i gynigion y gyllideb i waethygu anghydraddoldeb?
- A ydym yn cyfeirio preswylwyr at wasanaethau neu adnoddau i'e helpu yn ôl i waith?
- Beth sy'n cael ei wneud i helpu pobl ddigartref i fyw'n annibynnol e.e. dychwelyd i addysg neu gyflogaeth?
- A yw'n iawn fod plant rhwng 5-11 oed yn cael dognau o'r un maint i ginio, heb fod yn cael mwy os ydynt yn dal i fod eisiau bwyd, ond ar ddiwedd y cinio bod y sbarion yn cael eu taflu?

- Mae pryderon am effaith cynlluniau creu lle ar fusnesau bach yn Nhrefynwy, yn arbennig yng nghyswllt llwybrau teithio llesol, costau parcio a nifer is o ymwelwyr. sut mae'r cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn? **GWEITHREDU (ymateb ysgrifenedig am gynlluniau i fynd i'r afael â phryderon yn Nhrefynwy)**
- Mae ynysigrwydd mewn ardaloedd gwledig a'r straen a'r tlodi sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn arbennig yng nghyswllt costau uwch yn bryder mawr. A fedrwn weld rhywbeth yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol i helpu cyrraedd y bobl hyn?
- Sut mae Cyngor Sir Fynwy yn cymharu gydag awdurdodau eraill ar draws Cymru yn nhermau adrodd am ganlyniadau ac effeithiau'r gyllideb?
- Mae rhai disgyblion yn dewis peidio cael ciniawau ysgol – a yw hynny'n golygu nad ydynt yn cael dim byd? A ydym yn gwybod beth maent yn ei gael, a sut y dylem sicrhau goruchwylwyr?
- A gaiff strategaeth VAWDASV wedi ei chwblhau ei rhannu gydag aelodau, a sut?
- Gyda chyfeiriad at gronfeydd teithio llesol ar gyfer newidiadau cyflym ac effeithlon, pa mor rhwydd hi yw cael cwblhau prosiectau bach tebyg i drwsio palmentydd a gostwng cyrbiau?
- I ba raddau ydyn ni'n medru dylanwadu ar Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar faterion partneriaeth?
- A oes unrhyw waith yn cael ei wneud gydag ysgolion i'w gwneud yn fwy cynaliadwy, e.e. gosod paneli solar, gan eu darparu ar gyfer y dyfodol yng nghyswllt costau ynni?
- Yng nghyswllt y caffes Benthyg, a oes risg y bydd gwirfoddolwyr yn blino? A fydd recriwtio swyddogion prosiect economi eilaidd yn dod o'r gronfa Ffyniant Gyffredin, sut mae hynny'n mynd rhagddo, am ba mor hir y byddant yn y swydd?
- Ar dudalen 20, pam nad oes unrhyw darged ar gyfer 23/24 ar gyfer nifer y cartrefi fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio yn y flwyddyn? **–GWEITHREDU (rhoi ymateb ysgrifenedig gyda manylion)**
- Gan fod y cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor yn 3 gwaith y gyfradd chwyddiant a ragwelir ar gyfer 24/25, a fedrwn fforddio'r cynllun hwn?
- Ydych chi'n credu y byddai preswylwyr, defnyddwyr gwasanaeth a busnesau yn cytuno gyda ni yn sgorio ein hasesiadau? A fedrem ofyn iddyn nhw wneud y sgorio?

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i'r Arweinydd a swyddogion am yr adroddiad hwn. Aeth llawer o waith i weithgareddau beunyddiol y Cyngor ac mae'r pwyllgor yn dathlu gwelliannau lle cawsant eu gwneud ac yn llongyfarch y cyflogeion sydd wedi eu cyflawni. Cafodd yr adroddiad ei dderbyn.

## 5. Blaen Raglen Waith Craffu a Rhestr Gweithrediadau Perfformiad a Throsolwg

Gofynnodd y Cynghorydd Strong am edrych am ddyddiad ar gyfer craffu ar recriwtio a chadw gweithwyr Gofal Cymdeithasol – **GWEITHREDU**

Anfonir e-bost at aelodau gyda dyddiadau a gynigir ym mis Mawrth a mis Mehefin.

## 6. Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor

## 7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar:

- 22 Tachwedd 2023
- 15 Ionawr 2024 (Arbennig)

Cafodd y cofnodion eu cadarnhau, cynigiwyd gan y Cynghorydd Strong ac eiliwyd gan y Cynghorydd Howells.

8. **Cyfarfod nesaf: 20fed o Chwefror 2024**

Gorfennodd y cyfarfod am **12.53 pm**